



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## **Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru**

**Teitl y cynnig: Diwygio gwasanaethau offthalmig gofal sylfaenol: Asesiad Effaith Integredig**

**Adran: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Gweinidog sy'n gyfrifol: Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Dyddiad Dechrau: 24 Ebrill 2023**

**Am ragor o wybodaeth:**

**E-bost: [HSS-PrimaryCareMailbox@llyw.cymru](mailto:HSS-PrimaryCareMailbox@llyw.cymru)**

**Cyfeiriad: Yr Is-adran Gofal Sylfaenol - Cangen Polisi Awdioleg ac Offthalmig, Llywodraeth Cymru, 4ydd Llawr - Dwyrain Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: [hyperddolen](#)**

## Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiwygio darpariaeth gwasanaethau offthalmig yng Nghymru ac mae'n ymgynghori ar gynigion i ddiweddarau'r rheoliadau presennol er mwyn gwella mynediad at wasanaethau iechyd y llygaid mewn gwasanaethau gofal sylfaenol, gwasanaethau yn y gymuned, a gwasanaethau llygaid mewn ysbytai.

Mae penderfyniadau wedi dechrau cael eu gwneud ynghylch systemau gofal iechyd llygaid yng Nghymru ac mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn canolbwyntio ar yr hyn sydd orau i'r unigolyn. Mae cyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer gwell mynediad ac ansawdd yn golygu gwranddo a gwerthfawrogi llais gweithwyr iechyd proffesiynol.

Bydd y newidiadau i'r ddeddfwriaeth sy'n goruchwyllo gwasanaethau optometreg yng Nghymru yn golygu y gall Llywodraeth Cymru gryfhau'r llais ar draws gwasanaethau iechyd optometreg yn genedlaethol, gan gryfhau'r ffordd y mae optometryddion yn ymwneud ag iechyd llygaid unigolion, yn cefnogi'r iechyd llygaid hwnnw ac yn darparu gofal clinigol ar ei gyfer, yn ogystal â dylanwadu ar driniaeth a gofal parhaus i gefnogi'r ymdrech i gael gwasanaethau optometreg o ansawdd uwch.

Mae'r newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth yn gyfrwng allweddol ar gyfer [Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru: Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol](#) sy'n mapio disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau gofal llygaid dros y degawd nesaf.

Disgwylir y bydd y galw am wasanaethau offthalmig yng Nghymru yn cynyddu'n fawr dros yr 20 mlynedd nesaf yn sgil carfan cleifion a fydd yn fwyfwy oedrannus a chynnydd yn y boblogaeth. Mae'r ffynhonnell ddata hon yn deillio o Goleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr, Coleg yr Optometryddion a'r Trydydd Sector. Rhaid i'r pwyslais ar gyfer pob gwasanaeth gofal llygaid fod ar ganfod problemau iechyd llygaid yn gynharach er mwyn helpu i leihau nifer y bobl sy'n colli eu golwg er bod modd i hynny gael ei osgoi. Mae amcangyfrifon a nodwyd yn *Null Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol* yn awgrymu y gallai colli golwg fod yn rhywbeth y gellid bod wedi'i osgoi yn hanner yr achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt, ac mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd ymyrraeth gynnar ac atal.

Yr ateb mwyaf hyfyw a chynaliadwy yw symud y gwaith o ddarparu rhai gwasanaethau gofal llygaid o ysbytai i wasanaethau optometreg gofal sylfaenol, lle mae gweithlu medrus sydd â'r gallu i ymateb i'r cynnydd sylweddol disgwyliedig yn y galw.

Y cynnig allweddol yw ehangu'r gwasanaethau iechyd llygaid sy'n cael eu darparu ar y stryd fawr gan optometryddion. Ar hyn o bryd, y gwasanaeth craidd sy'n cael ei ddarparu gan optometryddion yw profion golwg y GIG, gyda rhai optometryddion yn darparu gwasanaethau ychwanegol trwy drefniadau ar wahân. Rydym yn cynnig ehangu gwasanaethau offthalmig gofal sylfaenol fel bod pob optometrydd yn darparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau fel rhan o drefniadau safonol. Yn ogystal â phrofion golwg, bydd pob optometrydd gofal sylfaenol yn darparu archwiliadau llygaid i gleifion sydd â phroblem llygaid sydd angen sylw brys neu'r rhai sydd â risg uwch o glefyd y llygaid. Bydd prawf golwg presennol y GIG hefyd yn cynnwys cyngor ar atal, iechyd a lles, hunanofal cleifion, a datblygu cynllun rheoli ar gyfer cleifion unigol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r sector gofal llygaid yng Nghymru, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, wedi esblygu'n sylweddol ac mae gan ymarferwyr y gallu a'r set sgiliau i roi diagnosis, trin, ac ymdopi â rhagor o gleifion yn y maes gofal sylfaenol. Un o'r prif ffactorau sy'n sbarduno'r newidiadau yw'r angen i leddfu'r pwysau ar wasanaethau llygaid mewn ysbytai mewn gofal eilaidd, drwy gynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu darparu'n agosach i'r cartref yn y maes gofal sylfaenol. Nod y llwybrau gofal llygaid newydd a gynigir, fel y manylir yn y ddogfen ymgynghori, yw lleihau nifer yr atgyfeiriadau i mewn i wasanaethau llygaid mewn ysbytai o tua thraean a chynyddu'r gwaith o fonitro a rheoli cleifion risg isel a chanolig yn y maes gofal sylfaenol, gan gynnal gwaith goruchwyllo arbenigol gwasanaethau llygaid mewn ysbytai.

Yn ogystal, drwy gynyddu gwaith monitro ym maes gofal sylfaenol, gellir rhyddhau mwy o apwyntiadau dilynol, gan gynyddu gallu mewn ysbytai gydag arbedion yn sgil hynny o ran amser gofal iechyd ac o ran costau ym maes gofal eilaidd. Bydd rhywfaint o gynnydd yng nghostau Llywodraeth Cymru yn sgil gwella gwasanaethau ac mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno ar gyllid o £15 miliwn yn 2022/23, £25 miliwn yn 2023/24 a £30 miliwn yn 2024/25. Bydd hyn yn ychwanegol i'r gyllideb bresennol o £43 miliwn y flwyddyn i fuddsoddi yng Ngwasanaeth Offthalmig Cyffredinol GIG Cymru, ei drawsnewid a'i ddarparu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio â rhanddeiliaid ar y diwygio arfaethedig i wasanaethau offthalmig ac wrth wneud hynny mae wedi ystyried darpariaeth bresennol gwasanaethau, mynediad atynt, ac ansawdd. Sefydlwyd Bwrdd Gweithredu Optometreg ac is-grwpiau cysylltiedig i ddatblygu ymhellach gynigion ar gyfer y gofynion manwl. Mae'r Bwrdd a'i is-grwpiau cysylltiedig wedi cyfarfod yn rheolaidd ers cael eu sefydlu ac mae'r aelodaeth yn cynnwys Byrddau Iechyd Lleol GIG Cymru, Cyngor Iechyd Cymuned, Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG, arweinwyr Gofal Sylfaenol (Optometreg), a staff Llywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu polisi Llywodraeth Cymru ar ddiwygio gwasanaethau offthalmig. Fel rhan o'r broses hon, mae Pwyllgor Optometreg Cymru wedi llunio'r adroddiad [Optometreg: Sicrhau 'Cymru Iachach' 2021 i 2031 | LLYW. CYMRU](#) sy'n cefnogi'r Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol.

Bydd y rheoliadau'n cael eu gwneud o dan weithdrefn negyddol y Senedd ar gyfer llunio is-ddeddfwriaeth (yn unol ag adran 203(4) o Ddeddf 2006) a fydd yn cynnwys y canlynol:

- Dirymu ac ail-wneud gyda newidiadau Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986, a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Atodol Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio a Diwygiad Canlyniadol) (Cymru) 2006, a;
- Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997.

Cynigir hefyd ddirymu ac ail-wneud gyda newidiadau Cyfarwyddiadau Pwyllgor Gwasanaeth Archwiliad Iechyd Llygaid (Cymru) 2016 a Chyfarwyddiadau'r Pwyllgor Gwasanaeth Golwg Gwan (Cymru) 2016 a diweddarau eu llawlyfrau clinigol cysylltiedig fel rhan o'r diwygiadau hyn.

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AER) wedi'i gwblhau ochr yn ochr â'r diwygio arfaethedig hwn. Mae'r AER yn darparu asesiad o'r costau, y buddion a'r risgiau tebygol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau deddfwriaethol. Mae dadansoddiad o'r buddion yn dangos y bydd y newidiadau arfaethedig yn paratoi'r ffordd ar gyfer darpariaeth Gwasanaethau Offthalmig fwy modern ac ystwyth ac sy'n canolbwyntio ar gleifion yng Nghymru.

## Casgliad

### 1. Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol effeithio arnynt wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu?

Dechreuodd Llywodraeth Cymru gyfres o gyfarfodydd a gweithdai ym mis Hydref 2019 gyda'r nod o gwmpasu sut dylai gwasanaethau gofal llygaid edrych yn y dyfodol o safbwynt y claf ar draws y llwybrau gofal llygaid sylfaenol ac eilaidd yng Nghymru. Roedd y rhanddeiliaid yn cynnwys cynghorau iechyd cymuned, byrddau iechyd lleol, cyrff cynrychiadol optometreg ac optegwyr cyflenwi ynghyd â chynrychiolaeth o offthalmoleg, orthoptwyr a nyrsio offthalmig.

Ar ôl hynny, fe wnaeth Llywodraeth Cymru barhau i ddwyn ynghyd y rhanddeiliaid allweddol hyn sy'n darparu gofal llygaid o bob cwr o Gymru i weithio ar y cyd i gytuno ar ddull cenedlaethol, ac arweiniodd hynny at gyhoeddi'r ddogfen *Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru: Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol*. Roedd y ddogfen yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau gofal llygaid dros y degawd nesaf.

Ar ben hynny, mae'r cynigion hyn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus sy'n dechrau ar 24 Ebrill 2023 ac yn dod i ben ar 19 Mehefin 2023. Mae'n nodi manylion bwriad Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r

gwaith o ddarparu gwasanaethau offthalmig sylfaenol yng Nghymru. Caiff yr Asesiad Effaith Integredig hwn ei lywio ymhellach gan yr ymatebion i'r ymarfer ymgynghori. Mae'r ymgynghoriad yn mynd ati i geisio barn byrddau iechyd, personau sy'n darparu gwasanaethau offthalmig y GIG neu a allai wneud cais i wneud hynny, pobl sy'n helpu i ddarparu gwasanaethau offthalmig neu a allai wneud cais i ddarparu gwasanaethau o'r fath, cyrff proffesiynol sydd â budd mewn gwasanaethau offthalmig y GIG, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd yn ehangach.

Mae cwestiynau penodol wedi'u cynnwys hefyd yn y ddogfen ymgynghori i asesu'r effaith ar y Gymraeg a fydd yn llywio ymhellach Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg sy'n cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r diwygio hwn ac a fydd yn cael ei gwblhau yn dilyn yr ymatebion i'r ymarfer ymgynghori. Yn ogystal, gofynnir am adborth ar ein camau gweithredu arfaethedig gyda'r bwriad o rymuso pobl â nodweddion gwarchodedig. Gweler ein *Hasesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA)* a'n *Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb* sy'n darparu gwerthusiad manylach o'r buddion a ragwelwyd ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig yn ogystal â'r cyhoedd yn ehangach yn fwy cyffredinol.

Mae'r cynigion sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen ymgynghori yn cyflawni yn erbyn y camau sydd wedi'u hamlinellu yn [Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru: Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol](#) a sefydlwyd ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol sy'n gyfrifol am ddarparu gofal llygaid.

## **2. Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, yn rhai cadarnhaol a negyddol?**

O safbwynt y cyhoedd, dyma'r effeithiau a nodwyd ac a ddaeth yn sgil y cynigion:

- Gwell mynediad amserol a gostyngiad mewn amseroedd aros i unigolion sydd angen gwasanaethau arbenigol gwasanaethau llygaid mewn ysbytai ym maes gofal eilaidd.
- Gwell mynediad amserol i 'brofion golwg', archwiliadau iechyd llygaid cyfannol a thriniaeth a rheolaeth iechyd llygaid ym maes gofal sylfaenol.
- Bydd cleifion yn cael mynediad at well gwasanaethau gofal llygaid mewn practisau optometreg gofal sylfaenol yn agos i'w cartrefi.
- Dim ond cleifion sydd angen gwasanaethau llygaid arbenigol fydd yn cael eu gweld yn yr ysbyty.
- Gwell mynediad amserol i gleifion â phatholeg llygaid a allai achosi colli golwg parhaol di-droi'n-ôl, oherwydd bod llai o alw ar wasanaethau llygaid mewn ysbytai.
- Alinio'n well â phroffesiynau contractwyr eraill o ran telerau gwasanaeth craidd cyfredol a newydd ar gyfer atal a darparu cymorth llesiant i unigolion ym maes gofal sylfaenol h.y. cyfeirio pobl at weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol eraill ar gyfer cymorth iechyd a lles parhaus.
- Gweithlu gofal sylfaenol sydd â gwell sgiliau fel y gallant weithio ar frig eu trwydded a darparu gofal a rennir hefyd ar draws yr holl faes gofal sylfaenol ac eilaidd a phob llwybr gofal llygaid cleifion.
- Bydd llai o ddibyniaeth ar werthu sbectol a lensys cyffwrdd yn gwella'r profiad a'r canlyniadau i gleifion sy'n cael mynediad at wasanaethau gofal llygaid sylfaenol.
- Bydd newidiadau deddfwriaethol yn sicrhau bod offeryn optegol ar gael ac yn cael ei ddarparu am ddim i glaf cymwys drwy'r system dalebau optegol.

O safbwynt Optometrydd, dyma'r effeithiau a nodwyd ac a ddaeth yn sgil y cynigion:

- Mae'n golygu y gellir defnyddio galluogrwydd proffesiynol llawn wrth ddarparu gofal llygaid ar lefel gofal sylfaenol.
- Mae optometryddion yn rhan annatod o'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau gofal llygaid, ac mae ganddynt y sgiliau i gynnal 'profion golwg' ac 'archwiliadau iechyd llygaid' ym maes gofal sylfaenol.

- Mae gan ymarferwyr y gallu a'r set sgiliau i roi diagnosis, i drin, ac ymdopi â mwy o gleifion ym maes gofal sylfaenol, gan ddarparu gofal yn agos i'w cartrefi a gwella mynediad cleifion at wasanaethau gofal llygaid arbenigol mewn ffordd amserol.
- Mae'r ffocws ar gyngor iechyd a lles a hunanofal cleifion yn golygu bod Optometreg yn cyd-fynd â Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Deintyddiaeth a Fferylliaeth GIG Cymru gan ddarparu cysondeb ar draws proffesiynau gofal sylfaenol.
- Mae hyn oll yn cael ei ategu drwy raglen ansawdd uchel o welliannau i sgiliau ac addysg sy'n cyd-fynd â datblygiad proffesiynol parhaus, ymarfer myfyriol, a mentora.
- Mae'r pecyn ariannol newydd sy'n sail i'r diwygio yn lleddfu'r croes-gymhorthdal manwerthu sydd wedi bod ar waith ers canol y 1980au ac yn ei ddisodli gyda chynnydd sylweddol mewn tâl ar gyfer y proffesiwn optometreg i ddarparu gwasanaethau clinigol ac i ffynnu mewn amgylchedd clinigol gyda thâl priodol. Yn fyr, bydd optometryddion yn cael eu talu mewn ffordd sy'n fwy priodol am eu gwaith clinigol, gan ddisodli'r ddibyniaeth ar werthu offer manwerthu i sybsideiddio cost gwasanaethau clinigol.
- Bydd hyn yn gofyn am newid i fodel y busnes ar gyfer practisau optometreg a bydd hynny'n ei dro yn gofyn am gyfnod o ail-addasu.
- Fel y crybwyllwyd yn flaenorol mae AER wedi'i ddatblygu ochr yn ochr â'r diwygio arfaethedig ym maes gwasanaethau offthalmig sylfaenol, ac mae'n cynnwys unrhyw effaith ar Optegwyr / Practisau Optometreg.

Gan fod y cynigion hyn yn ddarostyngedig i ymgynghoriad cyhoeddus sy'n dechrau ar 24 Ebrill 2023 ac yn dod i ben ar 19 Mehefin 2023, bydd unrhyw effeithiau a nodwyd gan yr ymarfer ymgynghori yn cael ystyriaeth lawn ac yn cael eu hymgorffori yn yr Asesiad Effaith Integredig er mwyn llywio ymhellach y broses ddeddfwriaethol a'r broses o wneud penderfyniadau.

### **3. Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:**

- **yn gwneud cymaint o gyfraniad â phosibl at y nodau Llesiant a'r saith nod Llesiant;**
- a / neu**
- **yn osgoi, lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae diwygio gwasanaethau Offthalmig Sylfaenol yn bwysig o ran cefnogi egwyddor gyffredinol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sef gwneud ymyriadau cadarnhaol nawr er budd pobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae'r polisi yn cyfrannu tuag at nodau Llesiant y Ddeddf, yn benodol y rhai sy'n ymwneud â:

- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus

Mae'r diwygio yn cefnogi pum ffordd o weithio (Deddf) Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel a ganlyn:

- **Hirdymor:** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i arwain y gwaith o ddiwygio gofal llygaid yn glinigol o safbwynt sy'n canolbwyntio ar gleifion, a Chymru yw cenedl gyntaf y DU i groesawu'n gyfan gwbl wasanaethau clinigol ym maes gofal sylfaenol a gofal yn y gymuned o ran optometreg, sy'n seiliedig ar egwyddorion allweddol gofal iechyd darbodus. Bydd y cynnydd mewn gwasanaethau clinigol sy'n cael eu darparu gan optometryddion, drwy gydweithio â gwasanaethau llygaid ysbytai, yn rhoi sicrwydd i GIG Cymru y bydd y ddarpariaeth yn gyfartal, yn gyson, ac yn amserol i bob dinesydd ledled Cymru. Yn yr un modd, bydd y model clinigol newydd yn galluogi cleifion i dderbyn triniaeth amserol pan fydd ei angen arnynt a bydd yn helpu i gefnogi practisau optometreg i gynnal eu model busnes yn y dyfodol.

- **Atal:** Mae rhan allweddol o'r diwygio yn cynnwys cynyddu mynediad amserol at 'brofion golwg', archwiliadau cyfannol iechyd y llygaid a thriniaeth a rheolaeth iechyd llygaid ym maes gofal sylfaenol a fydd yn arwain at ganlyniadau gwell i ddinasyddion Cymru gan y bydd mwy o broblemau iechyd llygaid yn cael eu canfod yn gynharach. Y ffocws yw gwella mynediad at wasanaethau iechyd llygaid yn y gymuned ac mewn ysbytai, gan alluogi cleifion i gael mynediad at wasanaethau a ddarperir gan y gweithiwr proffesiynol cywir, yn y lle cywir ar draws llwybr gofal llygaid cyfan y maes optometreg gofal sylfaenol a gofal llygaid arbenigol mewn ysbytai. Bydd atal a llesiant yn cael eu gwreiddio ymhellach ar draws yr holl wasanaethau optometreg, gan hwyluso canlyniadau gwell i gleifion a llai o alw am wasanaethau gofal llygaid mewn Practisau Cyffredinol (Meddyg Teulu) a rhai arbenigol mewn ysbytai.
- **Integreiddio:** Mae'r cynigion yn integreiddio ag amcanion polisi eraill Llywodraeth Cymru sy'n cyd-fynd ag ymrwymïadau [Cymru Iachach](#) a'r [Rhaglen Lywodraethu](#) sy'n ymwneud â sicrhau gwell mynediad at weithwyr iechyd proffesiynol. Yn benodol, mae ein Model Gofal Sylfaenol yng Nghymru yn ymwneud â phobl yn cael y gofal cywir, gan y gweithiwr proffesiynol cywir ar gyfer eu hanghenion penodol, mor agos i'r cartref â phosibl. Mae gwasanaethau gofal sylfaenol yn integreiddio, gan ddwyn ynghyd meddygon teulu, nyrsys, fferyllwyr, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, deintyddion, optometryddion a gwasanaethau lleol eraill, gan gydlyn mynediad a defnyddio arbenigedd ac amser pawb mewn ffordd effeithiol.
- **Cydweithredu:** Wrth ddatblygu'r gofynion manwl, mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n agos â rhanddeiliaid fel Byrddau Iechyd Lleol GIG Cymru, Cyngor Iechyd Cymuned, Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG, arweinwyr Gofal Sylfaenol (Optometreg) ac wrth wneud hynny wedi helpu i lywio'r gwaith arfaethedig o ddiwygio'r gwasanaethau.
- **Cyfranogiad:** O 24 Ebrill, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymarfer ymgynghori ac yn mynd ati i geisio ymatebion gan gyrff ambarél y sector, darparwyr, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn sicrhau eu bod yn rhan o'r gwaith o lywio a chyflwyno'r cynigion. Bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael eu cyhoeddi.

#### **4. Sut caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth i'r broses symud yn ei blaen a phan gaiff ei chwblhau?**

Byddwn yn monitro'r gwaith o weithredu'r gwasanaeth newydd a'r model ariannol am 12 mis yn dilyn y dyddiad y bydd y rheoliadau'n dod i rym. Bydd y model newydd hwn yn cael ei fonitro yn erbyn y targedau sydd wedi'u gosod yn y Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol. Bydd adroddiadau interim blynyddol ac adolygiad swyddogol sy'n asesu effaith y rheoliadau yn dilyn y pum mlynedd gyntaf, yn cael eu darparu i'w cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn  
Saesneg hefyd. This document is  
also available in English..